

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
20 Chwefror 2018, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, A Williams, D ap Rhobert, D Morgan	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Roberts, A C Jones, W Williams, A Wyn, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16.01.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Gofeb Talwrn - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac o Eglwys Llanddyfnan i'r gofeb
4.2	Halfway, Talwrn (ildio) - Bydd y Clerc yn ysgrifennau at y Cyngor Sir i ddweud bod angen symud yr arwydd ildio at cyfeiriad Llangefni
4.3	Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth) - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir heb clywed gan yr Eglwys yng Nghymru. Bydd y Clerc yn cysylltu a Swyddfa Cofrestrfa Cymru
4.4	Llwybr Cyhoeddus Bodffordd - Llyn Frogwy - Disgwyl am canlyniad yr ymgynghoriad (Mehefin - Medi 2017) barn ar rheolau adnoddau naturiol.
4.5	Lloches Bws - Mae'r Clerc wedi derbyn prisiau am symud y lloches presennol a cael un lloches newydd: Euroshel Ltd £7445 + TAW (yn cynnwys gwneud y sylfaen), Shelter Solutions £5886 + TAW (dim yn cynnwys y sylfaen). Bydd y Clerc yn gofyn am pris arall am lloches 4 metr o hyd
4.6	Ymgynghoriad Wylfa Newydd - Sylwadau y Cyngor: Mae y Cyngor o'r farn y dylai Horizon roi'r gorau i'w bwriad i ddinistrio 300 hecтар o dir ger Tregale i gyfeiriad Cemlyn er mwyn codi dau adweithydd niwclear enfawr. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ddim byd ond taflu llwch i lygaid pobl Môn. Ni fydd sefydlau gwlybtiroedd rhwng Cemaes ac Amlwch ac i'r Gogledd o Langefni yn gwneud iawn am ddinistrio cynefiroedd gwerthfawr ar y safle 300 hecтар y bwriedir ei ddinistrio. Ymdrech yw hon gan Horizon i roi'r argraff eu bod yn poeni am yr amgylchedd. Y gwir yw y byddai dinistrio'r safle yn golygu colli tir am byth a rwbio halen i'r briw. Byddai'r gwastraff o'r ddau adweithydd yn gorfod cael ei storio ar y safle am o leiaf 150 o flynyddoedd.
	Llofnod.....Cadeirydd 27.03.18

	Nid yw Hitachi wedi sicrhau arian gan lywodraethau i dalu am gost enfawr y prosiect. Dim ond gyda chymorthdaliadau cyhoeddus enfawr y gall y gwaith fynd yn ei flaen. Credwn fod gwell defnydd o lawer i arian cyhoeddus ym maes ynni adnewyddol ac y dylid rhoi'r gorau i geisio adeiladu dau adweithydd niwclear newydd yn y Wylfa.
5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Dim
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	Shelter Solutions - pris cysgodfan bws - gweler 4.5
6.2	Euroshel Ltd - pris cysgodfan bws - gweler 4.5
6.3	A Foulkes - pris archwilio. Mae Mr Foulkes yn cynnig gwneud y gwaith ar yr un telerau a Mr John Roberts (yr archwilydd blaenorol). Cytunwyd i cynnig contract i Mr Foulkes am un flwyddyn.
6.4	Cyngor Gwynedd - pris archwilio - cynnig gwneud y gwaith am £125 - £150.
6.5	Horizon - Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 - gweler 4.6
7	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd i dalu
7.1	Neuadd Bentref y Talwrn - cais ariannol. Cytunwyd i dalu £1000 ar ôl derbyn copi o'r mantolen
7.2	Aelodaeth Unllais Cymru £148.00
8	MATERION ERAILL
8.1	Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd. Mae Cyng D Pritchard wedi derbyn llawer o gwynion gan y pentrefwyr a gan bobl tu allan I Langwyllog am gyflwr y ffordd o Bodffordd i lôn Llanerchymedd. Maent yn cwyno am gyflwr y ffordd yn gyffredinol ond hefyd am rai manau arbennig ble mae tyllau yn creu anawsterau a pherygl posib. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.2	Tregaian - Capel Coch - tyllau yn y lôn - Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.3	Parcio wrth ymyl Ysgol Talwrn - Bydd y Clerc yn cynnig gwahoddiad i'r PCSO i'r cyfarfod nesaf.
8.4	Problemau gyda BT Broadband (disgwyl am mwy o wybodaeth)
8.5	Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn - Dywedodd Cyng W Vaughan bod dwr yn rhedeg i lawr y llwybr am mae'r ffoes'di cau. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.6	Ffoes wrth ymyl yr Eglwys, Talwrn. Mae angen agor y ffoes - Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
9	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
	Dim
	Llofnod.....Cadeirydd 27.03.18